

Prifysgol Caerdydd
Datganiad blynyddol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil
Gorffennaf 2017

Rhagair

1. Mae egwyddor gonestrwydd yn llywio ein holl weithgaredd ym Mhrifysgol Caerdydd (“Prifysgol”), fel y nodir yn strategaeth y Brifysgol¹. Mae ymchwil yn faes ffocws strategol allweddol i'r Brifysgol, ac mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i gynnal y safonau gonestrwydd a rhagoriaethymchwil uchafym mhob gweithgaredd ymchwil. Mae'r Brifysgol yn gwbl ymrwymedig i gynnal egwyddorion Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil Prifysgolion y DU (“Concordat”).
2. Cydnabyddir y Brifysgol yn rhyngwladol fel prifysgol ymchwilddwys lwyddiannus. Yn ôl Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, pumed yn y DU yw'r Brifysgol am ansawdd ei hymchwil, ac ail yn genedlaethol am effaith ei hymchwil. Mae'r Brifysgol yn ceisio gwella ei safle ymhellach ac yn cofleidio'r her hon ar lwyfan ryngwladol gynyddol gystadleuol.
3. Cyfanswm incwm Grantiau a Chontractau Ymchwil y Brifysgol ar gyfer y flwyddyn 2015/2016 oedd £113.6 miliwn, gyda £57.8 miliwn yn dod o Gynghorau Ymchwil ac Elusennau. Mae incwm o Gynghorau Ymchwil ac Elusennau wedi parhau i godi ers 2012².

Diben

4. Er mwyn gwella atebolrwydd a sicrhau yr ymgymerir a mesurau at gynnal safonau uchel o onestrwydd ymchwil, mae'r Concordat yn argymhell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn paratoi datganiad blynyddol byr ar gyfer eu corff llywodraethu sy'n darparu'r canlynol:
 - 4.1. Crynodeb o weithredoedd a gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw er mwyn cynnal a chryfhau dealltwriaeth a chymhwysiad problemau gonestrwydd ymchwil;
 - 4.2. Sicrhau bod y prosesau sydd ar waith er mwyn delio â chyhuddiadau o gamymddwyn yn dryloyw, cadarn, a theg, ac eu bod yn parhau i fod yn addas at anghenion y sefydliad; a
 - 4.3. datganiad lefel uchel ynghylch unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddygiad ymchwil a gafwyd,
5. Dyma Ddatganiad Blynyddol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil cyntaf y Brifysgol (“Datganiad Blynyddol”), ac mae wedi ei gyflwyno i Senedd, Pwyllgor Llywodraethu, a Chyngor y Brifysgol. Megis yr argymhellwyd gan y Concordat, bydd y Datganiad Blynyddol ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

¹Y Ffordd Ymlaen, 2012-2017

²Ceir manylion pellach ynghylch perfformiad ariannol y Brifysgol, gan gynnwys dadansoddiad manylach o incwm y Grantiau a Chontractau Ymchwil, yn Adroddiad Blynyddol 2016 y Brifysgol: <http://www.cardiff.ac.uk/about/our-profile/annual-review>

Y cyfnod a gwmpesir gan y Datganiad Blynyddol hwn

6. Gan mai dyma Ddatganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol, crynhoa sut y caiff gonestrwydd ymchwil ei reoli'n gyffredinol yn y Brifysgol, yn ogystal â mynd i'r afael â'r tri maes a argymhellir gan y Concordat. Mae'r adran "Gweithredoedd a Gweithgareddau" yn manylu ar y camau allweddol a gymerwyd yn 2016/2017 er mwyn cryfhau gonestrwydd ymchwil.
7. Bydd holl Ddatganiadau Blynyddol y dyfodol yn ymwneud â blwyddyn academiaidd benodol. Rhagwêl y Brifysgol y caiff ei Datganiad Blynyddol nesaf ei ryddhau ddiwedd 2018, gan gwmpasu blwyddyn academiaidd 2017-18.

Gonestrwydd Ymchwil yn y Brifysgol

8. Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o systemau a dulliau ar waith er mwyn cynnal ac ysgogi gonestrwydd ymchwil ar draws y sefydliad. Crynhoa'r Datganiad Blynyddol hwn y dulliau allweddol a ddefnyddir er mwyn cryfhau gonestrwydd ymchwil ar draws y Brifysgol.

Polisi, gweithdrefnau, a chanllawiau

9. Yn 2015, adolygwyd gweithdrefnau Fframwaith Llywodraethu Ymchwil ("RGF") a Chamymddygiad Ymchwil Academiaidd ("ARM") y Brifysgol er mwyn sicrhau bod anghenion y Concordat yn cael eu bodloni. Cafodd yr RGF ei ailnewi'n y Côt Ymarfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu ("CoP"). Dosbarthwyd y CoP a'r ARM i'r holl staff ym mis Tachwedd 2015, ac roeddent ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol³.
10. Mae'r CoP yn cynnwys set o ddisgwyliadau a safonau ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr sydd ynghlwm wrth ymchwil yn y Brifysgol. Mae'r CoP yn ei gwneud hi'n glir bod gan staff a myfyrwyr gyfrifoldeb a dyletswydd i fod yn atebol i gymdeithas, eu proffesiwn, y Brifysgol a chyllidwyr eu hymchwil, ac i dderbyn cyfrifoldeb llawn dros broffesiynoldeb a gonestrwydd pob agwedd ar ymddygiad a chyhoeddiad eu hymchwil.
11. Mae'r CoP yn berthnasol i bob math o ymchwil, ym mhob cam, ac mae hefyd yn cyfeirio ymchwilwyr at bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol eraill y Brifysgol, gan gynnwys ARM; Diogelu Plant ac Oedolion Sy'n Agored i Niwed; Diogelu Data; Datgan Buddiannau Allanol; Cyhoeddiadau Mynediad Agored.
12. Yn unol â'r Concordat, mae'r CoP a pholisiâu eraill sy'n ymwneud â gweithgarwch ymchwil yn amodol ar adolygu cyfnodol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.
13. Mae gan y Brifysgol weithdrefnau penodol ar waith i sicrhau bod ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr, data neu feinwe dynol yn amodol ar adolygiad a chymeradwyaeth foesebol. Mae canllaw foesebol ar gael ar dudalennau gwe moeseg ymchwil y Brifysgol sy'n gosod allan pryd y mae angen cymeradwyaeth foesebol allanol.
14. Ac eithrio achosion lle mae angen cymeradwyaeth foesebol allanol, bydd yr holl ymchwil yn y Brifysgol sy'n cynnwys cyfranogwyr, data neu feinwe dynol yn amodol ar adolygiadau disgyblaethol benodol gan Bwyllgorau Moeseg Ymchwil yr Ysgolion ("SRECs"). Goruchwylir gwaith y SRECs gan Bwyllgor Moeseg a Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol ("URIEC"), a adwaenid gynt fel Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ("UREC").

³<http://www.cardiff.ac.uk/research/Our-research-Environment/integrity-and-Ethics>
<http://www.cardiff.ac.uk/public-information/policies-and-procedures/academic-Research-misconduct>

15. Mae adran “Cymorth Ymchwil” mewnwyd y Brifysgol yn darparu arweiniad ynghylch ystod o faterion gonestrwydd ymchwil i ymchwilwyr, gan gynnwys Moeseg Ymchwil; y Ddeddf Meinweoedd Dynol ac ymchwil sy'n cynnwys Meinwe Dynol; ymchwil sy'n cynnwys y GIG neu Dreialon Clinigol Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliadol (“CTIMPs”); Rheoli Data; Eiddo Deallusol.
16. Caiff cynnwys y tudalennau gonestrwydd ymchwil ar wefan a mewnwyd y Brifysgol ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Hyfforddiant

17. Mae hyfforddiant ar gyfer materion sy'n ymwneud â gonestrwydd ymchwil ar gael trwy'r Rhaglen Datblygu Staff Adnoddau Dynol/Rhaglen Ymchwilwyr Caerdydd a'r Academi Ddoethurol (ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-raddedig). Dyma enghreifftiau: Rheoli Data Ymchwil; Diogelu Plant; Eiddo Deallusol; Moeseg Ymchwil; Rheoli Prosiectau Ymchwil. Darperir hyfforddiant disgyblaethol benodol mewn rhai meysydd allweddol, megis Ymchwil Glinigol; [CTIMPs](#); Meinweoedd Dynol; Ymchwil sy'n Defnyddio Anifeiliaid.
18. Mae'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil yn rhoi cyflwyniad byr ar onestrwydd ymchwil yn ystod y broses ymsefydlu ar gyfer ôl-raddedigion (ymchwil) a chyfeiriadedd academiaidd (ar gyfer staff). Mae ymarfer cwmpasu yn mynd rhagddo er mwyn datblygu rhaglen hyfforddi gonestrwydd ymchwil Prifysgol Caerdydd.

Arweinyddiaeth a chyfrifoldeb

19. Y Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu (“PVC”) yw'r uwch arweinydd academiaidd ar gyfer gonestrwydd ymchwil yn y Brifysgol. Y PVC yw Cadeirydd URIEC. Mae Deoniaid Ymchwil y Brifysgol yn aelodau o URIEC ac maent yn cymryd rhan weithredol yn cryfhau gonestrwydd ymchwil. Mae cyfranogiad uwch academyddion wrth gefnogi a hyrwyddo gonestrwydd ymchwil yn helpu i feithrin diwylliant gonestrwydd ymchwil ar draws y Brifysgol.
20. URIEC sy'n gyfrifol am gynnal ac adolygu y CoP, yn ogystal â goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r Concordat. Fel y nodir isod (31.3), mae URIEC yn adrodd i Bwyllgor Llywodraethu y Brifysgol.
21. Ym mis Ionawr 2017, penododd y Brifysgol Swyddog Gonestrwydd Ymchwil a Llywodraethu (“RIGO”) i gefnogi'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil yn y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd (“RIS”). Mae'r RIGO yn rhoi cymorth pwrpasol i weithgarwch gonestrwydd ymchwil y Brifysgol.
22. Mae'r RIGO ac aelodau eraill o'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil, yn swyddogion dros URIEC sy'n ei gynorthwyo i weithredu'r camau y cytunwyd arnynt. Mae Dirprwy Gyfarwyddwr RIS/Pennaeth Llywodraethu a Chontractau Ymchwil yn Ysgrifennydd dros URIEC sy'n rheoli'r agendâu a chofnodion ar gyfer pob cyfarfod.
23. Goruchwylir meysydd rheoledig allweddol Meinweoedd Dynol, CTIMPs, ac Ymchwil sy'n Defnyddio Anifeiliaid gan bwyllgorau penodol sy'n sicrhau bod polisiau, gweithdrefnau, ac arweiniad perthnasol yn cael eu lledaenu'n briodol. Mae'r pwyllgorau hyn yn adrodd i URIEC.

Cydweithredu ac ymgysylltu allanol

24. Cefnogir gonestrwydd ymchwil ar draws y Brifysgol. Mae RIS yn cydweithio'n agos â Cholegau ac Ysgolion Academiaidd a meysydd perthnasol y Gwasanaethau Proffesiynol er mwyn sicrhau bod polisiau ac arweiniad yn addas at y diben. Mae'r cydweithrediad hwn yn allweddol at gryfhau gonestrwydd ymchwil ar draws y Brifysgol.

25. Mae'r Brifysgol yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu arferion gorau o ran gonestrwydd ymchwil â sefydliadau eraill ar draws y DU. Mae'r Brifysgol yn tanysgrifio i Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU ("UKRIO") ac yn mynychu ei chynadleddau blynyddol. Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell ac fe'i cynrychiolir mewn gweithdai gonestrwydd ymchwil. Mae'r ddau ffora hyn yn annog trafodaeth ynghylch materion gonestrwydd ymchwil ac yn rhoi cyfle i'r Brifysgol rannu (a dysgu) arferion gorau.

Monitro ac archwilio gonestrwydd ymchwil

26. Mae Offeryn Hunan-werthuso'r UKRIO wedi cael ei ddefnyddio i feincnodi perfformiad y Brifysgol yn erbyn gofynion y Concordat. Mae'r ymarfer hwn yn sicrhau bod y Brifysgol yn cymryd llawer o'r camau angenrheidiol a argymhellir er mwyn annog a chefnogi gonestrwydd ymchwil ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae wedi galluogi'r Brifysgol i ganfod meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau i gryfhau ymhellach onestrwydd ymchwil. Yr ydys wedi wedi nodi'r meysydd hyn fel manau gweithredu ar gyfer tимоedd/unigolion dynodedig.

27. Fel rhan o gynllun archwilio mewnol blynyddol y Brifysgol, cynhaliwyd dau archwiliad mewnol (yn 2014 a 2016) er mwyn asesu cydymffurfriad y Brifysgol â'r Concordat. Cynhaliwyd y ddau archwiliad gan Uned Archwilio Mewnol ar y Cyd y Brifysgol, ac ynghyd ag Offeryn Hunan-werthuso'r UKRIO, maent wedi galluogi'r Brifysgol i ganfod camau gweithredu penodol er mwyn cryfhau gonestrwydd ymchwil.

28. Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r gweithdrefnau adolygu moesegol yn y Brifysgol yn cael eu goruchwylio gan URIEC. Mae'n ofynnol i'r holl SRECs ddarparu adroddiad blynyddol ar weithgarwch moeseg ymchwil i URIEC.

29. Mae'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil yn RIS wedi rhoi ar waith broses asesu risg ar gyfer prosiectau yng nghylch gorchwyl y Fframwaith Llywodraethu Ymchwil ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r asesiad yn diffinio lefelau risg ac yn galluogi canfod prosiectau y mae angen darpariaeth fonitro ychwanegol arnynt. Mae gan y CTIMPs asesiadau risg triol penodol a gynhelir drwy gydol y treial, ac sy'n cael eu defnyddio er mwyn diffinio anghenion monitro. Mae Rheolwr Meinweoedd Dynol y Brifysgol a'r tîm ategol yn yn cynnal rhaglen archwilio gynhwysfawr sy'n cynnwys yr holl feinweoedd dynol a ddelir o dan drwydded y Brifysgol. Cynhelir archwiliadau Deddf Meinweoedd Dynol yn ogystal i astudiaethau sydd wedi eu heithrio rhag y drwydded. Mae rhaglen fonitro/archwilio ar wahân ar waith ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid, ac fe'i goruchwyllir gan Goleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd.

Gweithredoedd a Gweithgareddau (2016/2017)

30. Mae gonestrwydd ymchwil yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol i'r Brifysgol yn ystod 2016/2017. Mae'r gweithgarwch allweddol yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

31. Sefydlu URIEC

31.1. Ym mis Ebrill 2016 cymeradwywyd sefydlu URIEC gan Bwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol, fel ei fod yn dod i rym oddi ar fis Awst 2016. Fel y trafodwyd uchod, mae URIEC wedi esblygu o UREC ac yn cwmpasu ei weithgarwch blaenorol.

31.2. Mae cylch gorchwyl URIEC yn eang ac yn cynnwys:

31.2.1. Gweithredu fel corff goruchwylio i sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni gofynion y Concordat;

31.2.2. Cynnal ac adolygu y CoP;

31.2.3. Monitro cydymffuriad â gofynion deddfwriaethol drwy dderbyn (ym mhob cyfarfod) adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Biolegol (mewn perthynas ag ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid), y Pwyllgor Safonau Meinweoedd Dynol a'r Grŵp Llywodraethu Treialon Clinigol (Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliadol);

31.2.4. Trosolwg o'r gweithdrefnau adolygu moesegol yn y Brifysgol (rôl a gyflawnwyd gynt gan UREC), sy'n cynnwys derbyn Adroddiad Blynyddol gan bob SREC; a

31.2.5. Derbyn adroddiadau ar gyhuddiadau o ARM.

31.3. Bydd URIEC yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu. Mae paratoi y Datganiad Blynyddol hwn yn ofynnol yn ôl cylch gorchwyl URIEC.

31.4. Cyfarfu URIEC am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2016. Cynhaliwyd cyfarfodydd dilynol ym mis Ionawr 2017, mis Ebrill 2017 a mis Mehefin 2017. Ymhlith y meysydd blaenoriaeth presennol ar gyfer URIEC y mae:

31.4.1. *Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil*

Mae prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gwmpasu datblygiad hyfforddiant gonestrwydd ymchwil penodol ar gyfer ymchwilwyr yn y Brifysgol. Yr ydys yn rhoi ystyriaeth i ddatblygu modiwl hyfforddi ar-lein, ochr yn ochr ag opsiynau hyfforddi eraill.

31.4.2. *Adnabod prosiectau ymchwil risg uchel*

Mae meini prawf yn cael eu datblygu ar gyfer adnabod prosiectau ymchwil risg uchel. Yn dilyn hynny, bydd rhaid rhoi system ar waith i adnabod unrhyw brosiectau ymchwil o'r fath a phennu lefelau monitro prosiectol.

31.4.3. *"Dyletswydd Atal" ac Ymchwil sy'n Sensitif i Ddiogelwch*

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r systemau mae'r Brifysgol yn eu rhoi, neu y dylid eu rhoi, ar waith i sicrhau cydymffuriad â'r Ddyletswydd Atal ac ar gyfer monitro Ymchwil sy'n Sensitif i Ddiogelwch.

31.5. Ers ei sefydlu, mae URIEC wedi derbyn adroddiadau gan y Pwyllgor Safonau Biolegol (mewn perthynas ag ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid), y Pwyllgor Safonau Meinweoedd Dynol a'r Grŵp Llywodraethu Treialon Clinigol (Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliadol), fel y bwriadwyd. Derbyniwyd hefyd adroddiad ar gyhuddiadau o gamymddygiad ymchwil academiaidd a digwyddiadau andwyol mewn ymchwil feinweoedd dynol.

31.6. Ymhlith y gweithgareddau allweddol eraill yr ymgwymerwyd â nhw gan URIEC ers ei sefydlu y mae:

31.6.1. Cymeradwyo adolygiadau i'r CoP, gan gynnwys ychwanegu/diweddarau adrannau ar Reoleiddiadau Allforio a Llwgrwobrwyo. Cyhoeddir y CoP diweddaedig ddiwedd blwyddyn academiaidd 2016/17; a

31.6.2. cheir apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed gan SREC.

32. Diweddariad i Adroddiad Blynyddol gan SRECs - y Ddyletswydd Atal

Mae'r Brifysgol wedi gwneud diweddariad i brofforma Adroddiad Blynyddol Moesegol yr Ysgolion (y mae'r holl ysgolion yn ei gyflawni a'i gyflwyno i URIEC) er mwyn mynd i'r afael â'r Ddyletswydd

Atal yn benodol. Fel rhan o'r diweddariad, gofynnir i ymchwilwyr gadarnhau bod sylw priodol wedi ei roi i'r Ddyletswydd Atal a bod dolenni wedi'u cynnwys ar y profforma er mwyn cael rhagor o wybodaeth ynghylch y Ddyletswydd Atal.

33. Penodi Swyddog Gonestrwydd a Llywodraethu Ymchwil

Dechreuodd y RIGO weithio gyda'r Brifysgol fis Ionawr 2017, ac mae'r swydd hon yn rhan o'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil o fewn y RIS. Mae'r RIGO wedi bod yn gweithio gydag unigolion allweddol ar draws y Brifysgol (a chyda staff ar draws Prifysgolion eraill yn y DU) i ddatblygu mentrau a fydd yn cryfhau gonestrwydd ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r RIGO yn swyddog dros URIEC ac mae wedi arwain nifer o'r meysydd blaenoriaeth dros URIEC, gan gynnwys datblygu hyfforddiant gonestrwydd ymchwil.

34. Mapio polisi gonestrwydd ymchwil/arweiniad ar draws y Brifysgol

Mae ymarfer wedi cychwyn i gydgyssylltu'n ganolog holl bolisiau ac arweiniad y Brifysgol sy'n o dan gonestrwydd ymchwil. Fel rhan o'r ymarfer hwn, cynhelir adolygiad i sicrhau bod cyfrifoldebau yn glir a bod y dogfennau'n alinio ac yn gyfoes. Gallai'r wybodaeth a gesglir fod o gymorth i wneud penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch gweithgarwch gonestrwydd ymchwil, a gallai adnabod meysydd pellach i'w hasesu.

35. Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed mewn Ymchwil

Mae aelodau RIS, gan gynnwys y RIGO, wedi cyfrannu at ddatblygu polisi diogelu newydd yn y Brifysgol, a ddylai gael ei gyhoeddi cyn bo hir. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau penodol ar gyfer ymchwilwyr i helpu sicrhau cydymffurfio cyfreithiol.

36. Trafodaethau gyda gwrth-rannau GW4

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng RIGO a gwrth-rannau priodol o sefydliadau GW4⁴ ynghylch y posibilrwydd o gydweithio ar fenter gonestrwydd ymchwil yn y dyfodol.

37. Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

37.1. Mynychodd aelodau'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil ddigwyddiadau "Speak Weak" yn y Brifysgol ym mis Chwefror 2017. Diben y digwyddiadau hyn oedd rhoi mwy o lais i'r gweithiwr ac i annog aelodau o staff i ddweud eu dweud. Rhoddwyd cyfle i staff ddysgu am waith RIS a gofyn cwestiynau ynghylch llywodraethu a gonestrwydd ymchwil.

37.2. Yn ystod 2016/2017, mae'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil wedi rhoi cyflwyniadau mewn sesiynau ymsefydlu staff a myfyrwyr PhD ynghylch gonestrwydd ymchwil yn y Brifysgol.

37.3. Ym mis Mawrth 2017, cynhwyswyd erthygl ar onestrwydd ymchwil yn "Blas", sef cylchlythyr staff y Brifysgol.

Gweithdrefnau Camymddygiad Ymchwil Academaidd

38. Mae Prifysgol Caerdydd yn cymryd unrhyw gyhuddiad o gamymddwyn ym maes ymchwil o ddifrif ac mae wedi paratoi gweithdrefn i ymdrin â chyhuddiadau o'r fath yn unol ag egwyddorion y Concordat a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Unplygrwydd Ymchwil y DU.

⁴ Cynghrair yw GW4 sy'n cyfuno gallu deallusol ac adnoddau ffisegol pedair prifysgol ymchwilddwys fwyaf blaenllaw Cymru a de-orllewin Lloegr: Caerfaddon, Bryste, Caerdydd a Chaerwysg.

39. Mae tri cham i'r weithdrefn ARM. Ym mhob cam, gall y cyhuddiadau gael eu gollwng neu eu cymryd ymlaen i'r cam nesaf:
- 39.1. Cam Rhagarweiniol lle bydd yr Unigolyn a Enwir, mewn ymgynghoriad â'r PVC ac fel arfer o fewn 20 diwrnod, yn cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r cyhuddiad. Er mwyn dod i benderfyniad, caiff yr Unigolyn a Enwir geisio cyngor gan arbenigwr mewnol ynghylch difrifoldeb a hygrededd y pryderon.
 - 39.2. Cam sgrinio lle bydd Panel o dri aelod o staff mewnol, fel arfer o fewn 30 diwrnod, yn ystyried yr holl ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â'r cyhuddiad a ddarparwyd gan yr Achwynydd a'r Atebydd, gan ofyn am eglurhad pellach os oes angen.
 - 39.3. Cam Ymchwiliad Ffurfiol. Sefydlir Panel yn cynnwys Cadeirydd annibynnol, diduedd a dau aelod diduedd gydag arbenigedd a statws priodol. Dylai'r Cadeirydd ac o leiaf un o'r ddau aelod fod o du allan i'r Brifysgol, ac ni ddylent fod yn cael eu cyflogi yn y Brifysgol nac yn gweithio o dan gontract i'r Brifysgol. Ni ddylai'r aelod mewnol fod yn aelod o staff yn yr un Ysgol â'r Atebydd.
40. Adolygwyd a diwygiwyd y weithdrefn ARM ddiwethaf yn 2015. Cododd y diwygiad o brofiad yn delio â chyhuddiadau a dderbyniwyd ers 2010, cyngor a dderbyniwyd gan UKRIO, a chyhoeddi'r Concordat. Cymeradwywyd y weithdrefn ARM gan Senedd y Brifysgol a'i hardystio gan y Pwyllgor Llywodraethu.
41. Trwy adolygu'r Weithdrefn ARM yn rheolaidd a chael adborth oddi wrth UKRIO, mae'r Brifysgol yn sicrhau bod ei Gweithdrefn ARM yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn cydymffurfio ag arferion gorau, a'i bod yn gadarn ac yn deg.

Datganiad ar ymchwiliadau ffurfiol i Gamymddygiad Ymchwil Academaidd

42. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2016/17 hyd yma, cafwyd tri chyhuddiad o dan weithdrefn ARM y Brifysgol. O'r cyhuddiadau hyn:
- 42.1. Cafodd dau eu gwrthod yn y cam cychwynnol; ac
 - 42.2. Yr ydys yn dal i ystyried un ohonynt.

Paratoad y datganiad hwn

43. Paratowyd a chydlynwyd y datganiad hwn gan y Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil, RIS, gyda mewnbwn penodol gan Gynllunio Strategol a Llywodraethu (sy'n gyfrifol am Weithdrefn ARM). Adolygwyd y datganiad drafft gan URIEC gyda sylwadau.
44. Cyflwynwyd a thrafodwyd y datganiad hwn mewn cyfarfod Senedd y Brifysgol 14 Mehefin 2017, y Pwyllgor Llywodraethu 21 Mehefin 2017, a'r Cyngor ar 10 Gorffennaf 2017. Mae'r diwygiadau a argymhellwyd yn y cyfarfodydd hyn wedi eu hymgorffori yn fersiwn derfynol y Datganiad Blynyddol hwn.

Yr Athro Hywel Thomas
Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu
Gorffennaf 2017